

cymorth
crïstnogol



Gweddi'r Cynhaeaf

Dduw cyfiawnder,
fe'n gelwir i gydsefyll,
i gyd gerdded,
i rannu syniadau, breuddwydion a beichiau –
i gydweithio am gynhaeaf cyfiawn o dy roddion da.
Gyda'n gilydd, mae'r grym gennym i dyfu gobaith,
i hau hadau sy'n cynhyrchu gwell dyfodol.

Y tymor hwn, gweddiwn gyda'n teulu byd-eang.
Bydded inni gofleidio'r rhodd a ydym i'n gilydd –
a chyd gerdded gyda'n
chwiorydd a'n brodyr
i sicrhau newid.

Gyda'n gilydd, rydym yn gryfach.

Bydded inni gynnig ein rhoddion y tymor hwn.



Mae'r banciau mawr yn malio am
y farn gyhoeddus. Gyda'n gilydd,
mae'n llais yn rymus.

Dwedwch wrth HSBC am gymryd
Cam Mawr oddi wrth ynni ffosil a
thuag at ynni adnewyddol.

cymorth
crïstnogol

**Y CAM
MAWR**

Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni DG 5171525. Nodau masnachu Cymorth Cristnogol yw'r enw Cymorth Cristnogol a'r logo. Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o ACT Alliance. Argraffwyd yn llwyr ar ddeunydd wedi tarddu o fforestydd a reolir yn gyfrifol. Lluniau: Cymorth Cristnogol/Matt Gonzalez-Noda © Cymorth Cristnogol Mehefin 2018



Gweddïwch dros brosiect siop solar yn Ethiopia a thros y gymuned o ferched sy'n gyrru newid ymlaen.



Ymrwymwch i un weithred newid hinsawdd leol fydd yn cefnogi'r ymdrech fyd-eang i leihau ein hól troed carbon.



Gweddïwch dros rym parhaus menywod a merched.



Ymrwymwch i un weithred yn eich cymuned sy'n cynnig cyfleoedd i ferched a menywod.



Gyda'n gilydd, gall ein gweithredoedd helpu i gynhyrchu gwell dyfodol.

Mae Aster a'i chwirydd yn defnyddio ynni haul i godi eu hunain allan o dlodi.

Ond y mae HSBC – un o fanciau mawr y byd – yn parhau i ddewis buddsoddi miliynau o bunnoedd mewn ynni ffosil budr o amgylch y byd.

Mae'r gweithredoedd hyn yn gyrru newid hinsawdd, difrodi creadigaeth Duw ac yn gwadu'r hawl i fyw i'n chwirydd a'n brodyr.

Wnewch chi ddweud wrth HSBC am sefyll gydag Aster, fel eu bod yn cymryd Cam Mawr oddi wrth ynni ffosil ac at ynni adnewyddol heddiw?



Os gwelwch yn dda ychwanegwch eich
manylion ac arwyddwch y neges hon i

Brif Weithredwr newydd HSBC, John Flint.

Annwyl Mr John Flint,

Gan mai chi yw Prif Weithredwr HSBC, **rwy'n eich annog i ddefnyddio'ch safle i adeiladu byd gwell, mwy cynaliadwy.** Er bod HSBC wedi gwneud cynnydd yn ddiweddar, rwy'n pryderu bod eich banc yn dal i hybu newid hinsawdd trwy barhau i fenthyg mwy o arian i ynni ffosil nag i ynni adnewyddol.

Felly os gwelwch yn dda, cymerwch y Cam Mawr oddi wrth ynni ffosil a thuag at ynni adnewyddol a sicrhau dyfodol disgleiriach inni i gyd.

Llofnod: _____

Enw: _____

Côd post: _____

Os ydych yn hapus derbyn e-byst ynghylch ein hymgyrchoedd, os gwelwch yn dda rhowch eich e-bost isod. Trwy wneud hyn rydych yn caniatáu i dderbyn gwybodaeth am waith Cymorth Cristnogol trwy e-bost. Am fwy o wybodaeth ewch i caid.org.uk/privacy

E-bost: _____

Os gwelwch yn dda, cwblhewch y cerdyn hwn a'i ddychwelyd at **The Campaigns Team, PO Box 100, London SE1 7RT.**

A031486